# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Hydref 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 162(v3)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NDM6825** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog 24, 25 a 27 – Gorchmynion Adran 116C', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Hydref 2018; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheolau Sefydlog 24, 25 a 27, fel y nodir yn Atodiad B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Ategol**

Llythyrau gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Llywydd a Llywodraeth Cymru

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod

(30 munud)

**NDM6819** Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i ymgorffori Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau Anabl yng nghyfraith Cymru.

2. Diben y Bil hwn fyddai cryfhau dulliau polisi sy'n seiliedig ar hawliau i hyrwyddo hawliau pobl ag anableddau a defnyddio Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau Anabl fel fframwaith ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Datganiad y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Personau Anabl (Saesneg yn unig)

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Meithrin Cydnerthedd – Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau – Ni chyflwynwyd Cynnig

## 9 Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil arfaethedig y Comisiwn – Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru)

(30 munud)

**NDM6821** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad Comisiwn y Cynulliad: "Creu Senedd i Gymru, adroddiad yr ymgynghoriad", Hydref 2018;

2. Yn nodi datganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad: Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru);

3. Yn cytuno i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad gyflwyno Bil i:

a) newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru,

b) ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad,

c) diwygio'r gyfraith yn ymwneud ag anghymhwyso, a

d) gwneud newidiadau eraill i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad, a newidiadau sy'n gysylltiedig â hwy.

Creu Senedd i Gymru, adroddiad yr ymgynghoriad

Datganiad ysgrifenedig Comisiwn y Cynulliad: Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru)

## 10 Dadl ar NDM6813 – Gwaredu deunyddiau a garthwyd o Fôr Hafren

(60 munud)

**NDM6813**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pryderon eang ymhlith y cyhoedd mewn perthynas â gwaredu deunyddiau a garthwyd o Fôr Hafren i leoliadau oddi ar arfordir de Cymru, sy'n gysylltiedig ag adeiladu gorsaf bŵer newydd yn Hinkley.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi tystiolaeth fwy manwl mewn ymateb i bryderon ynglŷn â risgiau i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd, gan gynnwys caniatáu ar gyfer cynnal profion pellach er mwyn darparu mwy o dryloywder; a

b) cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i atal y drwydded forol sy'n galluogi gweithgarwch gwaredu ac ymgymryd â rhaglen eang o ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau lleol a rhanddeiliaid ar draws de Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – [Julie James (Gorllewin Abertawe)]**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

2. Yn nodi:

a) o dan delerau'r Confensiwn ar Atal Llygredd Morol yn sgil Dympio Gwastraff a Deunyddiau Eraill (Confensiwn Llundain, 1972), y mae'r DU yn un o'r llofnodwyr, dim ond deunyddiau sydd â lefelau de minimis o ymbelydredd a all gael eu hystyried ar gyfer cael eu gwaredu ar y môr.

b) yr asesiad ymbelydrol generig ceidwadol, a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol, yw'r dull rhyngwladol cymeradwy ar gyfer profi am lefelau de minimis o ymbelydredd a chafodd y dull hwn ei ddefnyddio wrth wneud penderfyniad ynghylch trwydded forol Hinkley.

c) y dystiolaeth o fewn adroddiad Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol a nododd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud ei benderfyniad ynghylch trwydded forol ar sail cyngor arbenigol, a hynny'n unol â gweithdrefnau'r Asiantaeth Ynni Atomig Rhyngwladol ar gyfer asesiadau ymbelydrol.

d) y ffaith y daeth yr holl brofion ac asesiadau i'r casgliad fod y gwaddod i'w waredu o fewn y terfynau diogel, nad oes unrhyw berygl ymbelydrol i iechyd pobl nac i'r amgylchedd a'i fod yn ddeunydd diogel ac addas i'w waredu ar y môr.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru o safbwynt ymgysylltu rhagor â'r cyhoedd er mwyn egluro'r broses a'r dystiolaeth, gan dawelu ofnau'r cyhoedd.

[Confensiwn ar Atal Llygredd Morol yn sgil Dympio Gwastraff a Deunyddiau Eraill (Confensiwn Llundain, 1972)] (Saesneg yn unig)

[Adroddiad y Pwyllgor Deisebau]

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 -** [Neil McEvoy (Canol De Cymru)]

Ym mhwynt 2, ychwanegu is-bwyntiau newydd:

cymryd i ystyriaeth y wybodaeth a ddarparwyd gan yr Athro Emeritws Keith Barnham ynghylch damweiniau pwll oeri yn Hinkley Point A yn y 1960au;

cyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i gynnal asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol y caiff dympio gwaddod o Hinkley yn Cardiff Grounds ar arfordir Cymru, y boblogaeth arfordirol ac amgylchedd morol Cymru.

Yr Athro Keith Barnham, 'New evidence of the need to test Hinkley Point sediments for Uranium and Plutonium' - gosodwyd copi yn Llyfrgell yr Aelodau

## 11 Cyfnod pleidleisio

## 12 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6820** [Mark Reckless (Dwyrain De Cymru]

Casnewydd: economi, seilwaith a chyfleoedd.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 16 Hydref 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 03/10/2018 i'w hateb ar 10/10/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OAQ52717

**(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd Ysgrifennydd y Cabinet i wasanaethau ataliol wrth benderfynu ar y gyllideb ddrafft?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

2 OAQ52709

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wariant Llywodraeth Cymru yn 2019-20 ym Mynwy?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OAQ52739

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y bydd y gyllideb ddrafft yn helpu awdurdodau lleol yng ngogledd Cymru yn sgil y pwysau ariannol sydd arnynt?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

4 OAQ52724

**(e)**

Pa effaith y mae'r gyfradd dreth trafodiadau tir o 6 y cant wedi'i chael ar refeniw treth o drafodiadau eiddo masnachol dros £1 miliwn ers mis Ebrill 2018?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

5 OAQ52725

**(e)**

Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal i sicrhau y bydd cronfeydd strwythurol yn cael eu rheoli gan Lywodraeth Cymru ar ôl Brexit?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

6 OAQ52722

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y rhagolygon ariannol sy'n sail i'r gyllideb ddrafft?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

7 OAQ52726

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei rhoi i gynorthwyo'r gwaith o ddileu digartrefedd wrth ddyrannu arian i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**8** OAQ52716

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran symud tuag at fodel cyllidebu sy'n canolbwyntio mwy ar wario ataliol?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**9** OAQ52712

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gaffael cyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**10** OAQ52721

**(e)**

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith cyllideb ddiweddar Llywodraeth Cymru ar dalwyr y dreth gyngor yng Ngorllewin De Cymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**11** OAQ52734

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i rhoi i ddarparu cymorth ariannol i helpu sefydliadau i baratoi ar gyfer Brexit wrth ddyrannu'r gyllideb ddrafft?

**Lee Waters** *Llanelli*

**12** OAQ52736

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gyfarfod â chyngor dinas Preston i ddeall pa wersi y gall Llywodraeth Cymru eu dysgu o'i ffordd o ymdrin â chaffael cyhoeddus?

## Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**1** OAQ52708

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fand eang cyflym iawn ym Mynwy?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

2 OAQ52727

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am ddatblygu 5G yng Ngogledd Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

3 OAQ52707

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith diweddaraf i gyflwyno band eang ym Mhreseli Sir Benfro?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OAQ52730

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo cydweithio digidol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

5 OAQ52720

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â bwlio ar sail rhyw?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

6 OAQ52711

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth o fand eang yn Nwyrain Casnewydd?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

7 OAQ52718

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi datganiad am y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8 OAQ52738

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyflwyno band eang cyflym iawn ledled Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

9 OAQ52713

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am y ddarpariaeth o fand eang cyflym iawn yng Nghaerffili?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

10 OAQ52704

**(e)**

Pa gamau diweddar y mae Arweinydd y Tŷ wedi'u cymryd mewn perthynas â'i chyfrifoldebau portffolio dros gydraddoldeb?

**David Rees** *Aberafan*

**11** OAQ52732

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Arweinydd y Tŷ wedi'u cael gyda'r Cwnsler Cyffredinol ynghylch y camau y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod yr hawliau a nodir yn siarter hawliau sylfaenol Ewrop yn cael eu hymgorffori o fewn cyfraith Cymru ar ôl i'r DU ymadael â'r UE?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**12** OAQ52728

**(e)**

Pa drafodaethau diweddar y mae Arweinydd y Tŷ wedi'u cael am hawliau dynol mewn perthynas â chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig a'r UE?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**13** OAQ52733

**(w)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am argaeledd 3G a 4G yng Ngogledd Cymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**14** OAQ52737

**(e)**

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd trawsnewid digidol ar draws sector cyhoeddus Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**15** OAQ52705

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn goruchwylio cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus?

# Comisiwn y Cynulliad

**David Melding** *Canol De Cymru*

**1** OAQ52715

**(w)**

Pa werthusiad y mae'r Comiswn wedi'i wneud o gyfranogiad y Cynulliad yn Eisteddfod Genedlaethol 2018 ym Mae Caerdydd?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**2** OAQ52740

**(e)**

Pa ddigwyddiadau y mae'r Comisiwn wedi'u cynllunio i goffáu canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

3 OAQ52735

Tynnwyd yn ôl

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan y Comisiwn i wella'r amgylchedd o amgylch y Cynulliad?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

4 OAQ52731

**(e)**

Beth y mae'r Comisiwn yn ei wneud i annog pobl ifanc i ymweld â'r Cynulliad?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ52729

**(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ddarparu adnoddau ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OAQ52741

**(e)**

A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am barodrwydd y Cynulliad a'i swyddfeydd ledled y wlad i ymateb i ymosodiadau terfysgol posibl?